

# **Cyngor Cymuned Pennal** **Pennal Community Council**

## PWYLLGOR MIS CHWEFROR

Cofnodion Mis Chwefror

Derbyniwyd ymddiheiriad oddiwrth Meirion Roberts a Dewi Owen

Yn absenoldeb y Cadeirydd fe gymerodd Rhys Parry Is Gadeirydd y gadair. Trafodwyd y canlynol

Bin halen ger Cwmgila

Diolchwyd I William Rees am rhoi halen yn y bin ger Cwmgila ag hefyd am fynd ymhellach I glerior rhew i allugorir perchnogion ddefnyddior ffordd ag hefyd am lenwir binniau halen cyn y tywydd drwg.

Binniau Cwn

Dal I aros amdanynt dim ymateb o Cyngor Gwynedd.

Toiledau

Derbyniwyd llythyr gan Bethan Roberts swyddog Cynllun Patneriaethau Cyngor Gwyedd eglurwyd mae patneriaeth i gadwr Toiledau ar agor drost y ddwy flynnedd nesa yw hwn., cytunwyd yn unfrydol i wneud hyn i sicirhau eu cadw ar agor .

Un Llais Cymru

Tal aelodaeth Cytunwyd I dalu hwn gan fod eu cefnogaeth ar wahanol faterion yn holl bwysig ir Cyngor .

Cais am Arian

Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd cytunwyd I rhoi rhodd o £200 tuag at y mudiad oherwydd y gwaith da y meant yn gwneud yng nghefyn gwlad , serch yr holl dorri ar eu cyllideb yn ddiweddar

.Rhys Teras

Gofynwyd wrth y Cyngor am edrych I mewn pwy sydd a blaenoriaeth ar y man cyfung yma ai traffig ochr Pennal neu Machynlleth byddair cyngor yn gofyn wrth Cyngor Gwynedd.

Cadarnhawyd hefyd bod 4 drych wedi eu harchebu I hyrwyddo golwg modurwyr mewn gwahanol fannau o fewn Cwrt a Pennal.

Cais Cynllunio Nyth yr Eryr

Penderfynodd y Cyngor anfon copi o lythyr a anfonwyd at adran Cynlluniau Parc Eryri ar y mater, at Mr James Annwyl sef y perchenog, hefyd fe fyddair cyngor yn falch o wybod gweddill eu gynlluniau ir prosiect. oherwydd anghytundeb ar perchnogaeth y Lloches Bws.

Trafodwyd y Gyllideb am y tri mis nesaf

Ni godwyd pris y brisept eleni.

Deilwen Breese cler